

Julie Boothroyd  
Chief Officer of Social Care and Health  
Monmouthshire County Council  
County Hall  
Rhadyr  
Usk  
NP15 1GA

Dyddiad / Date: 03 Awst 2020

Annwyl Julie Boothroyd,

## **Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020**

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Fynwy wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys:

- arolygiad o wasanaethau oedolion hŷn – cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Awst 2019
- gweithgarwch â phwyslais penodol blynyddol a gynhaliwyd ym maes gwasanaethau plant ar 6 a 7 Chwefror 2020
- gweithgarwch â phwyslais penodol blynyddol a gynhaliwyd ym maes gwasanaethau oedolion ar 12 a 13 Chwefror 2020
- cyfarfodydd ymarfer a pherfformiad a gynhaliwyd â'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ar 20 Awst 2019 a 24 Chwefror 2020
- cyfarfodydd ymarfer a pherfformiad a gynhaliwyd â'r Pennaeth Gwasanaethau Plant ar 27 Awst 2019 a 25 Chwefror 2020

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r awdurdod lleol wrth i'r holl weithgarwch a restrir uchod fynd rhagddo, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus, a rennir â'r awdurdod lleol yn gyson.

#### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

##### **Llesiant**

Mae niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn yr awdurdod lleol yn parhau i gynyddu. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu ymyriadau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Er enghraifft, mae Panel Amddiffyn Plant wedi cael ei roi ar waith gyda'r nod o archwilio ymarfer proffesiynol, dadansoddi risg, rheoli risg, cynllunio diogelwch ac archwilio proses i hybu trothwyon cyson.

Yn ystod ein gweithgarwch â phwyslais penodol mewn gwasanaethau plant, gwelsom fod yr awdurdod lleol wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymarfer a llunio'r ffordd y maent yn gweithio gyda theuluoedd er mwyn hyrwyddo cryfderau, rheoli risgiau a chyflawni canlyniadau sy'n ddigon da. Mae hyn yn unol â'i fenter 'Meithrin Arferion Gorau mewn Gwasanaethau Plant.'

Er bod yr ymgyrch recriwtio gofalwyr maeth wedi bod yn llwyddiannus, ar adegau mae'r galw am leoliadau wedi bod yn uwch na'r hyn sydd ar gael. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg dewis o leoliadau i rai bobl ifanc sy'n dechrau derbyn gofal, gan gynyddu'r risg o leoliad yn chwalu, a chynyddu'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir. Mae datblygu system Fy Nhîm Cymorth ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn enghraifft o gam gweithredu a gymerwyd gan Gyngor Sir Fynwy i ddatblygu darpariaeth lleoliadau therapiwtig, gwella argaeledd a dewis o leoliadau a darparu cymorth i ofalwyr maeth.

Nododd ein harolygiad o wasanaethau oedolion hŷn bod dull cydweithredol sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cael ei ddilyn, lle mae pobl yn cymryd rhan weithredol mewn sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' a phenderfyniadau dilynol. Gwelsom fod gwaith amlasiantaeth effeithiol a bod y staff ar bob lefel yn dangos ymrwymiad hirdymor i weledigaeth yr awdurdod lleol ar

gyfer llesiant a hyrwyddo annibyniaeth oedolion hŷn sy'n byw yn y gymuned, a dealltwriaeth ymarferol ohoni.

Un o'r heriau a wynebir gan yr awdurdod lleol yw diffyg argaeledd gwasanaethau cymorth cartref mewn rhai ardaloedd anghysbell/gwledig. Mae hyn wedi arwain at rai pobl yn wynebu oedi wrth ddychwelyd adref o'r ysbyty. Nododd ein gweithgarwch arolygu bod angen gwella amseroldeb cymorth cartref er mwyn sicrhau bod pobl yn cyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r awdurdod lleol yn nodi bod costau a diffyg argaeledd cymorth cartref yn peri pwysau parhaus, ac mae'r pwysau'n debygol o gynyddu yn y dyfodol. Mae'n gweithio gyda darparwyr cymorth cartref annibynnol er mwyn mynd i'r afael â rhai o heriau comisiynu cymorth cartref, yn enwedig i bobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell/gwledig.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweld cynnydd yn nifer yr adroddiadau diogelu. Nododd ein gweithgarwch â phwyslais penodol bod adolygiad o'r gwasanaethau diogelu oedolion wedi cael ei gynnal a bod strwythur diwygiedig wedi cael ei gynllunio ar gyfer mis Ebrill 2020 i gynyddu capasiti a chryfhau'r broses o hwyluso busnes diogelu awdurdod cyfan. Dywedodd pobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod tesun yr adroddiad oedolyn sy'n wynebu risg wrth wraidd y broses ddiogelu ac y ceisir barn a dymuniadau'r unigolyn. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cryfhau cofnodion i gael tystiolaeth o'r ymarfer hwn.

Nododd ein gweithgarwch blynyddol bod angen gwneud gwelliannau ar draws meysydd gwasanaeth er mwyn cryfhau cofnodion i gael tystiolaeth a sicrhau cysondeb ac ansawdd ymarfer, a darparu sicrwydd o ran cydymffurfio â deddfwriaeth, polisi a gweithdrefnau. Mae fframwaith sicrhau ansawdd newydd wedi cael ei ddatblygu. Mae angen ymgorffori hyn er mwyn sicrhau y caiff prosesau sicrhau ansawdd eu cryfhau. Cynlluniwyd rhoi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ar waith yn 2020-2021. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ystyried y ffordd y gall WCCIS helpu i goladu data perthnasol er mwyn cefnogi ymarfer a sicrhau ansawdd.

## **Pobl**

Mae gan Gyngor Sir Fynwy weithlu ymrwymedig ac ymroddedig. Mae tîm arwain sefydlog yn mynegi gweledigaeth glir ar gyfer gofal cymdeithasol ledled Sir Fynwy. Yn ystod ein gweithgarwch â phwyslais penodol, dywedodd pobl wrthym fod peth trosiant wedi bod ymhlith y staff. Dywedodd un rhiant wrthym ei fod wedi gorfod ailadrodd ei stori wrth nifer o weithwyr, a pha mor anodd oedd hyn. Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol wrthym am drosiant ymhlith y staff, ond roeddent yn teimlo eu bod wedi datblygu cydberthnasau da â staff craidd/rheolwyr. Gwelsom gamau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod lleol er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn timau, a oedd yn cynnwys defnyddio staff asiantaeth cyson. Mae rhaglen recriwtio ragweithiol a Menter Llesiant Iechyd Meddwl y Gweithlu ar waith.

Nododd ein harolygiad fod y dulliau o gynnal asesiadau gofaluwr yn amrywio. Mewn rhai achosion, roedd anghenion y gofaluwr yn cael eu cydnabod, gydag ail asesiadau yn cael eu cynnal ar gais. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, roedd y canlyniadau i raddau helaeth yn cael eu harwain gan y gwasanaethau, heb fod canlyniadau personol ehangach yn cael eu hystyried ryw lawer os o gwbl. Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn sicrhau bod asesiadau gofaluwr yn cael eu cynnig a'u cynnal yn rheolaidd yn unol â Deddf 2014.

Mae dwy ystad ddiogel yn Sir Fynwy. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom ddull amlddisgyblaethol o asesu a darparu gofal a chymorth i garcharorion.

Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cynnig taliadau uniongyrchol yn rheolaidd er mwyn rhoi'r cyfle iddynt reoli eu gofal a'u cymorth. Roedd archwiliad o'r defnydd o daliadau uniongyrchol wedi cael ei gynnal ac roedd yr awdurdod lleol yn ystyried sut y gellir ymgorffori taliadau uniongyrchol.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Mae cynllun gweithredu ar waith ar gyfer Safonau'r Gymraeg.

## **Atal**

Un o gryfderau penodol Cyngor Sir Fynwy yw ei ymrwymiad i ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau ataliol arloesol a chreadigol, a ffyrdd o weithio gyda phobl er mwyn iddynt ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i atal neu oedi eu hangen am ofal a chymorth statudol. Gwelsom dystiolaeth yn ein gweithgarwch blynyddol o amrywiaeth helaeth o wasanaethau ataliol yn y gymuned sy'n cefnogi ymyrryd yn gynnar a chanlyniadau da i bobl.

Mae egwyddorion eang 'Cymru Iachach' wedi ategu datblygiad y tri hwb cymunedol presennol. Gwelsom fod cydberthnasau gwaith da wedi cael eu meithrin â gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol/meddygon teulu mewn rhai rhannau o'r sir.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod angen archwilio defnydd helaethach o deleofal a thechnolegau cynorthwyol eraill er mwyn helpu pobl i fod yn fwy annibynnol. Yn dilyn ein harolygiad, roedd prosiect gan therapydd galwedigaethol yn edrych ar y ffordd y gellid defnyddio technoleg i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a chefnogi pobl sydd â dementia.

Nododd gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw fod gwasanaethau ataliol yn cael eu darparu er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd. Roedd hyn yn amlwg yn y ffeiliau a welsom a chadarnhawyd hyn gan rieni y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein gweithgarwch â phwyslais penodol.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r meysydd allweddol a nodwyd i'w gwella yn cynnwys proffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal, ac rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd

wedi bod mewn gofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Cadarnhaodd yr awdurdod lleol ei fod yn cynnal cyfarfodydd sefydlogrwydd lleoliadau mewn sefyllfaoedd lle mae risg o darfu ar leoliadau, ac mae'r prosesau hyn yn cael eu hymgorffori.

## **Partneriaethau**

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy ei fuddsoddiad yn y Gronfa Gofal Integredig wedi datblygu rhai gwasanaethau a dulliau arloesol a chreadigol. Er enghraifft, mae'r Prosiect Agor Drysau Caeëdig yn ddull teulu cyfan sy'n cael eu ddarparu ledled Gwent. Mae'r prosiect yn helpu plant a theuluoedd i wella o'u profiadau o gam-drin domestig, meithrin gwydnwch, cryfhau gallu o ran rhianta a systemau cymorth er mwyn gwella canlyniadau i blant a'u teuluoedd.

Mae'r fenter Adeiladu Teuluoedd Cryf yn enghraifft o'r ffordd mae dull gweithredu partneriaeth yn dod yn fwy effeithiol wrth gyflwyno ymyriadau mwy rhagweithiol i blant a'u teuluoedd. Elfen allweddol o hyn yw'r gwaith partneriaeth gyda gwasanaethau blynyddoedd cynnar/Dechrau'n Deg ac asiantaethau trydydd sector, ynghyd â chyfranogiad cynyddol gweithwyr iechyd sylfaenol.

Mae Panel Cymorth Cynnar Sir Fynwy yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac arbenigol, gwasanaethau tai, gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, gwasanaethau chwaraeon a hamdden. Mae'r panel yn cwrdd bob wythnos ac yn cael atgyfeiriadau gan nifer o ffynonellau. Mae'r panel yn defnyddio dull 'dim drws anghywir' amlasiantaethol o gefnogi teuluoedd.

Mae gan Gyngor Sir Fynwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ddull rhagweithiol o weithio mewn partneriaeth, wedi'i ategu gan Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig. Mae swyddi a ariennir ar y cyd yn cyflawni swyddogaethau gweithredol a strategol, gan hwyluso'r broses o roi cynlluniau tymor hwy ar waith yn effeithiol. Bydd rhoi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith yn cyd-fynd â'r system genedlaethol i Gymru, gyda'r nod o integreiddio'n llawn â'r Bwrdd Iechyd.

Mae grŵp gorchwyl a gorffen ledled Gwent yn gweithio ar gyflwyno'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru newydd. Bydd y broses o gyflwyno yn cynnwys Hyfforddiant Gweithdrefn ar 'Beth sy'n Wahanol'. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dogfen drothwy ranbarthol ledled y pum awdurdod yng Ngwent er mwyn cynorthwyo ymarfer cyson. Mae'r awdurdod lleol wedi arwain polisi a hyfforddiant camfanteisio ar blant ledled Gwent.

Mae trefniadau partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu. Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol ym maes comisiynu, cyllidebau cyfun a chynyddu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gyflwynir yn rhanbarthol.

## **Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021**

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng

presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd y byddwn yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer cyd-arolygu trefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Lou Bushell-Bauers  
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.  
Archwilio Cymru  
AGIC  
Estyn